D. S. Mae dwy fâth o gyhydeddion eraill, y rhai a elwir; y Gyhydedd fêraf, a'r Gyhydedd hwyaf; y Gyhydedd fêraf a fesurir o dair sillaf, ac a arferir yn niwedd Gørchest y beirdd yn unig; a'r Gyhydedd hwyaf a fesurir o un sillaf ar ddeg, ac weithiau o ddeuddeg (yr hyn nid yw amgennach na Hupynt bŷr) ac a arferir mewn Hîr a thioddaid; eithr yn drosgl ac amgylchynedig.

\*Dŷller nai Cyhydedd mesur, ac nid Cyhydedd braich a feddyfir wrthys.

Bellach, cyn dechreu dosparthu y mesurau, buddiol yw gosod i lawr y rhéolau neilltuol a berthyn iddynt, y rhai sydd fel y canlyu,

1. Pob odl, os bydd hi'n unrhyw a'r odl gysefin, a weinydda yn mhob rhai o'r mesur u; oddieithir mewn proest.

2. Pob cynganedd a weinydda yn mhob mesur; oddieithir Cadwyn fær, a gorchest y beirdd, y rhai a genir ar y groes gynganedd yn unig: ond cynganedd lusg ni chenir ar y fraich olaf o unrhyw fesur.

3. Pob cymmeriad a weinydda yn yr holl fesurau.

Tri rhyw brif fesur sydd; sef Englyn, Cywydd, ac Awdl; ac o'r tri hyn y ffurfir pedwar mesur ar ugain cerdd dafod, y rhai a genir, ac a ddosperthir fel y canlyn.

### AM ENGLYNION.

Englyn neu Ynglŷn, sydd fesur a genir weithiau ar ei ben ei hun, ac weithiau mewn Awdl, &c. Deuryw Englyn sydd; sef, Unodl, a Phroest, Tri rhyw Englyn unodl sydd; Unodl union, Unodl cyrch, ac Unodl crwca.

1. Englyn Unodl union, a fesurir o bedair braich, ac a gyfansoddir o ddau fesur ynghyd; sef Toddaid o un sillaf ar bymtheg yn y ddwy fraich gyntaf, (y rhai a elwir paladr,) a dwy fraich ar y gyhydedd gaeth, fel Cywydd deuaир hirion, ynglŷn ag ef, (y rhai a elwir esgyll,) ac yn cyd odli oll. Y fraich gyntaf a fydd bôb amser yn ddeg sillaf, drwy y gair cyrch; ac os cynganedd sain a fydd, rhaid i'r rhagwant, sef yr ail sain, neu orphwysfa, fôd yn y bummed sillaf; a gellir gosod y brifodl naill ai yn y chweched, seithfed, wythfed, neu y nawfed sillaf; a'r gweddill a fydd y gair cyrch, yr hwn a atebir yn yr ail fraich, naill ai yn unodl, yr hyn a elwir cyrch awdl, ai ar ddull proest, yr hyn a elwir cyrch gynghanedd, fel hyn,

\*Agor dy drysor, dod rân,---trwy gall-wedd,

10

Tra gelych, i'r truan;

6

Gwell ryw awr golli'r arian,

7

Na chau'r gôd, a nychu'r gwân.'

7

Parch. Ieuan Brydydd hir.

Arall, o gyrrch awdl, fel hyn,

\*Llawer brôn am hon ym Mhenarudd---a hyllt,

10

Ail Esyllt wiw lwys-hârdd:

6

Llefain yw berf ofer-fardd;

7

Llwyr wae, ni chwarae ni chwardd.

7

D. G. Mar. Angharad hael.

Gellir canu paladr Englyn heb na gwant na rhagwant ynddo; sef naill ai gyd â chroes, neu draws gynganedd, ai gyd â chynganedd lusg; gellir hefyd osod gorphwysfa yn y bummed sillaf, os na fydd hyn y cyfyngu y suwyr, megys,

Nid dwfn yw fy neigr, nid di-fud---fy llêf,

10

Am fy llyw cadarn-ddrud;

6

Nid dibœn na'm attebud;

7

Nid hawdd ymadrawdd a mûd.'

7

D. G. Mar. Lt. o Emlyn.

‘Myned i'r pridd yn ddiddadl,---yr ydwys, 10  
 Heb rodio mwy'n drwyndl ; 6  
 Gwén yw'r ên, — gwân y'w'r anadl ; 7  
 Brau yw'r einioes,—nid oes dadl.’ R. *Ddu o Feirion.* 7

2. Englyn Unodl cyrch a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth; y ddwy gyntaf yn cydodli a'u gilydd, un yn unsill, a'r llall yn lliaws-sill, fel esgyll Unodl union; a'r drydedd yn oll amrysal, ac a gyrcha sillaf i'w hateb o ganol y bedwaredd, pen yr hon a unodla gydâ'r paladr, fel hyn,

‘Nodawl wyt, a ffynnadwy ; 7  
 Ni bu'n f'oes neb enw fwy ; 7  
 Nerth drud C<sup>A</sup>S<sup>W</sup>A<sup>L</sup>L<sup>O</sup>N wrth drin, 7  
 Neu EDW<sup>I</sup>IN a wna'i adwy.’ Sim. *Fychan, i Piers Mostyn.* 7

3. Englyn Unodl erwca, a fesurir o bedair braich; y ddwy fraich gyntaf fel paladr Unodl cyrch, a Thoddaid o un sill ar bymtheg ynglŷn ag ef, ac yn cydodli oll, megys pe cenid Unodl union yn y gwrthwyneb; a rhaid i'r gosodiad yn y fraich olaf fod bob amser yn unodli a'r gair cyrch, fel hyn,

‘Braidd yn fyw, bereiddwen ferch ; 7  
 Briw digwyn, bradawg annerch ; 7  
 Briwiad, osodiad fy serch----ar loer gwlâd, 10  
 Brâd anfad,—bryd wenferch !’ R. *Meredydd.* 6

Englyn Proest, sydd fesur heb unodli fel y lleill, a dau ryw sydd iddo; sef Proest cyfnewidiog, a Phroest cadwynodl.

4. Proest cyfnewidiog, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth; drwy gadw yr un cydseiniadaid yn niwedd pob braich; eithir bydd y llafariaid yn amrysal, fel hyn,

‘Ei fawr boen, ddiofer beth, 7  
 A gwir lês agorai lith ; 7  
 Nid oes ail fugail o'i fath, 7  
 A thra bo dydd ni bydd bŷth.’ 7

E. *Morys, Mar. Parch. Rhys Foulks.*

Gellir ei estyn i chwe braich neu saith, sef y llafariaid oll, drwy gadw yr un cydseiniadaid yn niwedd y breichiau.

Gellir canu proest llafarrog hefyd, drwy ei derfynu mewn llafariaid amrysal, fel hyn,

‘Dilys iawn yw RHYS yn rhoi 7  
 Dirlwydd o ffrwd ourwledd ffriw ; 7  
 Diwyg ei LYS dug a'i law ;— 7  
 Dogn i bawb,—digon i'w byw.’ N. 7

5. Proest cadwynog a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd gaeth, fel Proest cyfnewidiog; a'r gadwynodl yw bôd prifodol y fraich gyntaf yn ateb i'r drydedd, a'r ail i'r bedwaredd, fel hyn,

‘Gair ysprydol fywiol faeth ; 7  
 Trwm air Duw tra-mawr a doeth ; 7  
 Fal y llif o fel a llaeth ; 7  
 Fal y pair o usel poeth.’ Jonathan Hughes. 7

Arall gyd â llafariaid, fel hyn,

‘Ca'dd ei wraig bêr drymder draw, 7  
 Am ei gwaraidd, lariaidd lyw ; 7

A'i blant hesyd, frwynfryd fraw—  
Odid un fath dâd yn fyw,' *Gro, Owen, Mar., I. Owen.*

7  
7

## AM GYWYDDAU.

Tri rhyw fesur Cywydd sydd, sef Cywydd deuair, Cywydd llosgynnog,  
ac Awdl gywydd. Dau ryw Gywydd deuair sydd; sef Deuair sylion,  
a Deuair hirion.

6. Cywydd deuair fyrion, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd fer;  
y naill yn unsill, a'r llall yn lliaws-sill, ac yn cydodli, fel hyn,

'Cynnal cwynion,  
Q dir i dôn.' *Gro, Owen, Mar., I. Morys.*

4  
4

7. Cywydd deuair hirion, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth;  
ac yn cydodli a'u gilydd, megis deuair fyrion, y naill yn unsill a'r llall yn  
lliaws-sill, fel hyn,

'Hyspys y dengys y dyn,  
O ba rádd y bo'i wreiddyn.' *T. Aled.*

7  
7

8. Cywydd llosgynnog, a fesurir o ddwy fraich, neu ragor, ar y gyhydedd  
draws, yn cydodli a'u gilydd; a braich o losgwrn ar y gyhydedd gaeth  
a'i chanol yn unodli gyd â diwedd y breichiau cyntaf, a'r diwedd yn odl  
amryfal, ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur, fel hyn,

'O ran dy serch, arwain da sôn,  
I'lh deg annerch, a'th dai gwyuion;  
Dy ddynion a diddanedd;

8  
8  
7

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

O Gaer a'i phont, gorhoff hawg,  
Dy air a fyn. hyd Ryfoniawg,  
Iôr doniawg, aur adanedd.' *Sim. Fychan, i Piers Mostyn.*

8  
8  
7

9. Awdl gywydd, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd gaeth; a bydd  
prifodl y fraich gyntaf yn unodli a'r orphwysfa yn yr ail fraich, a'r diw-  
edd yn odl amryfal; ac felly yn arwain yr awdl trwy'r mesur, fel hyn,

'Yn ein plith o enau'n plant,  
Dy ogoiant, deg Wiwner;

7  
7

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

Ac o enau'r plant gweiniaid,  
Dy nerth a wnaid, dawn wyrth Nêr.' *Gwilym Ganoldref.*

7  
7

Gellir canu y fraich olaf i awdl gywydd ar y gynganedd groes rywiog,  
a'r orphwysfa yn amryfañ accen i brifodl y fraich gyntaf, fel y gellir ei  
droi yn gywydd deuair hirion, fel hyn,

'Llwyth EDWIN oll yw'th hadyd;  
Llawn dywys yd,—linn dy sêdd.' *S. Fychan, i P. Mostyn.*

7  
7

## AM AWDLAU.

Awdl, yw caniad o amryw fesurau, yn ol yr arfer sathredig; eithr-  
wrth gerdd y tri Phrif-fardd, a dull Cynddelw, ni ddylai ragor nag un  
mesur fod ar yr un caniad; ac os hir fyddai, mae'n rhwydd newid y brifodl.

Wyth mesur Awdl sydd; sef Toddaid, Gwawdodlyn, Cyhydedd, Hyp-  
yn, Clogyrnach, Cyreñ a chwta, Cadwyu fesur, a Gorches y beirdd.

10. Toddaid, sydd fesur o ddwy fraich, yn cydodli a'u gilydd, a gair toddedig, o un i bedair sillaf, yn dilyn y brifodl, yn niwed y fraich gyntaf, yr hwn a gyrraill sillaf o ganol yr ail fraich i unodli ag ef. Gellir mesur y fraich gyntaf naill ai o'r gyhydedd lâs, ai o'r gaeth, ai o'r draws, ai o'r drosgl, (a'r gweddill yu air toddedig hyd y ddegfed sillaf) ac os cynganedd sain a fydd, rhaid fod y rhagwanit yn y bumed sillaf; ond yr ail fraich a fydd bob amser o'r gyhydedd drosgl, mewn Toddaid ar ei ben ei htu, fel hyn,

'Terfyn oes sydyn osododd----Duw mau

10

At yr aminodau'r awr y mûdodd.'

9

*E. Morys, Mar. Parch. R. Foulks.*

D. S. Pan fydd Toddaid yñ gýfansawdd â mesur arall, ni chenir y fraich olaf ar y gyhydedd drosgl bob amser; eithr yn amryfal,—sef weithiau o chwesill, fel mewn paladr Englyn unodl union, &c. ac weithiau o ddegsill, fel mewn Hir a thoddaid.

11. Byr a thoddaid, a fesurir o Doddaid un sill ar bymtheg yn mlaen, fel paladr Englyn unodl union; a phedair braich o'r gyhydedd draws, y rhai a derfynir gydâ Thoddaid o'r unrhyw, fel hyn,

'Plethu, a medru ymadrodd----praw-doethl;

10

Prydain a'i canmolodd;

6

Pawl a'i dalent, pa le dylodd?

8

Perl hoyw orchest, pur lewytchodd;

8

Para cynnyrch, pêr y canodd;

8

Penmaeth iawn-farn, pwy wnaeth unsodd?

8

Parch a dawn cyflawn cafodd,----mawryddig,

10

Pendesig, pan dyfodd.' *E. I. i'r Parch. W. Wyn.*

6

Os cenir ychiwaneg nag un penill o'r mesur hwn ynghyd, nid rhaid ond un Toddaid rhwng pob pedair braich.

12. Hir a thoddaid a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd hir, a Thoddaid o ugain sillaf ynglyn ag ef, ac yn cydodli oll, fel hyn,

'Llwydd i chwi eurweilch, llaw Dduw i'ch arwedd,

10

Dilyth eginau da lwythau Gwynedd;

10

I yrddweis y Dehau urddas a dyhedd;

10

Rhâd a erfyniwn i'r hydr wiw fonedd;

10

Bro'ch tadau, a bri'ch tudwedd----a harddoch;

10

Y mae wyr ynoch emmau o rinwedd.'

10

*Gro. Owen, i'r Cymroderion.*

Gwawdodyn, sydd fesur o amryw rifedi o freichiau ar yr un gyhydedd; ac o honaw y mae dau ryw; sef Gwawdodyn byr, a Gwawdodyn hir.

13. Gwawdodyn byr, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd drosgl; a Thoddaid ynglyn ag ef, ac yu cydodli oll, fel hyn,

'Ni phery Onnen a'i pheirianiau

9

Dan d'ewin ddyrnod ond yu ddarnau;

9

Ewinawg osawg asau,----braich a bròn,

10

A nyddai linon yn ddolenau.' *T. Aled. i Syr Rhys Tomas.*

9

14. Gwawdodyn hir, a fesurir o bedair braich ar y Gyhydedd drosgl; ac a derfynir gyd â Thoddaid, megys Gwawdodyn byr, fel hyn,

|                                                                 |    |
|-----------------------------------------------------------------|----|
| • Daear a chwiliodd drwy ei chalon,                             | 9  |
| Chwalai, a chloddiai ei choluddion;                             | 9  |
| A'i dewis wythi, mein i mwynion:                                | 9  |
| A thew r̄es euraid ei thrysorion,                               | 9  |
| A'i manylaf ddymunolion bethau:                                 | 10 |
| Deuai i'r golau ei dirgelion.' <i>Gro. Owen, Mar. L. Morys,</i> | 9  |

Cyhydedd mesur, fal ei gelwir, sydd o dair rhyw; sef Cyhydedd fēr,  
Cyhydedd hir, a Cyhydedd naw-ban.

15. Cyhydedd fer, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws;  
ac yn cydodli a'u gilydd, fel hyn,

|                                                     |   |
|-----------------------------------------------------|---|
| • Ail i farrug neu liseiriant,                      | 8 |
| A gwyrdd lysiau gardd a lasant,                     | 8 |
| Yw oes dynion, os adwaenant;                        | 8 |
| Fel ia unnos y distannant.' <i>Jonathan Hughes.</i> | 8 |

### Arall yn proestio.

|                                                     |   |
|-----------------------------------------------------|---|
| • I'r Mâb cyfarchaf, rhwyddaf Rhê; .                | 8 |
| I'r Tâd, a'r Yspryd gloyw-bryd glân;                | 8 |
| Neud mau yw cofiau eu cyfun;                        | 8 |
| Nid rhaid i'm ammau llyfrau llên.' <i>Taliesin.</i> | 8 |

16. Cyhydedd hir, a fesurir o ddwy fraich ar y gyhydedd wen drosgl;  
a braich o'r gyhydedd drosgl ynglŷn, a'r bumed sillaf o honi yn unodli  
a phrifodl y fraich gyntaf, a'r diwedd yn odl amryfal, ac yn arwain yr  
awdl trwy y mesur, fel hyn,

|                               |   |
|-------------------------------|---|
| • Dedwydd ddydd a ddaw,       | 5 |
| Gofid, llid, gerllaw,         | 5 |
| A dry yn hylaw dirion helynt; | 9 |

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

|                                                             |   |
|-------------------------------------------------------------|---|
| Ni chawn, digllawn daith,                                   | 5 |
| Glywed, gweled gwaith                                       | 5 |
| Nîch angau hirfaith na chynghorfynt., <i>D. Ddu, Eryri.</i> | 9 |

17. Cyhydedd naw-ban, a fesurir o bedair, neu o chwe braich ar y  
gyhydedd drosgl, yn cydodli oll, fel hyn,

|                                                             |   |
|-------------------------------------------------------------|---|
| • Duw oedd y Gair, o duedd gwrol,                           | 9 |
| Oedd yn y dechrau'n wyrthiau nerthol :                      | 9 |
| Y Gair iawn addas gwirioneddol,                             | 9 |
| A Duw'n Dâd iddo ; dawn dedwyddol.' <i>Jonathan Hughes.</i> | 9 |

Hupynt, sydd rydd i'w ganu naill ai yn gynganeddol, ai yn gyfochrog;  
ac iddo mae dau ryw, sef Hupynt byr, a Hupynt hir.

18. Hupynt byr a fesurir o ddwy fraich; y gyntaf ar y gyhydedd fēr;  
a'r ail o'r gyhydedd draws, a'r bedwaredd sillaf o honi yn ateb i brifodl  
y fraich gyntaf, a'r diwedd yn arwain yr awdl trwy y mesur, fel hyn,

|                                   |   |
|-----------------------------------|---|
| • Iaith dda foesol,               | 4 |
| Iaith hên oesol, Iaith hynawsedd, | 8 |

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

|                                                        |   |
|--------------------------------------------------------|---|
| Iaith o'r benna,                                       | 4 |
| Iaith o'r hyna, Iaith a rhinwedd.' <i>Rhys Morgan.</i> | 8 |

19. Hupynt bir, a fesurir o dair braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd fer, a'r drydedd o'r gyhydedd draws; ac a genir fel Hupynt by'r, megys,

|                            |   |
|----------------------------|---|
| 'Mawt ei radau,            | 4 |
| Mydr ganiadau,             | 4 |
| Myfyriadau, mwyfwy rediad; | 8 |

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

|                              |   |
|------------------------------|---|
| Mwyn dyniadau,               | 4 |
| Mwys blethiadau,             | 4 |
| Cynnwysiadau, cais osodiad.' | 8 |

20. Clogyrnach, a fesurir o bum braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd draws, ac yn cydodli; a'r ddwy ganol yn odlau aniryfal, ar y gyhydedd wen drosgl; yr olaf ar y gyhydedd lâs, a'r drydedd sillaf o honi yn unodli gyd â diwedd y breichiau canol, a'r diwedd yn cydodli â'r ddwy braich gyntaf, fel hyn,

|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| 'Fy iaith gywraint fŷth a garaf, | 8 |
| A'i thêg eiriau, iaith gwiraf,   | 8 |
| Iaith arraith eirioes,           | 5 |
| Wrol, fanol foes,                | 5 |
| Er f'einioes, a'r fwynaf.'       | 6 |

21. Cyreh a chwta, a fesurir o wyth braich ar y gyhydedd gaeth; y chwe braich cyntaf yn cydodli; a'r seithfed yn odl aniryfal, ac yn unodli â'r orphwysfa yn y fraich olaf, megys Awdl gywydd, a'r diwedd yn cydodli gyda'r breichiau dechreuoel, fel hyn,

|                                 |   |
|---------------------------------|---|
| 'Erfai yw'r llygys ar fôr llôn, | 7 |
| Hyn o lês a whai LETSON;        | 7 |
| E gair gwrês yn y gaer grôn,    | 7 |
| E gair seigiau gwresogion;      | 7 |
| A'r ceirw fry o barcau'r frôn,  | 7 |
| A'r éogaid o'r eigion,          | 7 |
| A gwenith, a phob gwinoedd,     | 7 |
| A'r tiroedd, a'r môr tirion.'   | 7 |

Lewys Morganwg.

Cadwyn fesur, yw penill lle cadwyner y cynganeddon yn orchestawl; ac iddo y mae dau ryw; sef Cadwyn fyr, a Thawddgyrch cadwynog, neu gyfochrog.

22. Cadwyn fyr, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, yn cydodli bob yn ail fraich, fel Proest cadwynog, ac yn cynganeddu bob pedair sillaf drwy'r fraich; a'r orphwysfa, sef y bedwaredd sillaf o bob braich yn unodli gydâ diwedd y fraich arall, fel hyn,

|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| 'Purlân afal, Perl y nefoedd,    | 8 |
| Da iawn ydoedd, di anwadal;      | 8 |
| Gair i gynnal geiriau gannoedd,  | 8 |
| O'r eithafoedd, arraith ddyfal.' | 8 |

Jonathan Hughes.

Gellir hefyd ei gynganeddu bob yn ail sillaf o'r fraich, a hyny yn orchestawl, yn ôl defod yr hèn feirdd.

23. Tawddgyrch cadwynog, a fesurir o bedair braich ar y gyhydedd draws, ac a genir fel Cadwyn fyr gyfochrog; a gosodir hiupynt bir ei fochrog ynglŷn âg ef, i gyflawni'r mesur, a'r brif odl yn unsam gyd â sillaf gyntaf y Tawddgyrch, fel hyn,

|                                                                    |   |
|--------------------------------------------------------------------|---|
| ‘Och arfeddyd wych wir fuddiol                                     | 8 |
| Er nef, sythol, wŷr na fethoch ;                                   | 8 |
| Mi rof ennyd amryw fanol,                                          | 8 |
| Ddiwyd rasol, weddi drosoch ;                                      | 8 |
| Mewn serch brawdol, diwahanol,                                     | 8 |
| Hoyw-wyr doniol hir y d'unoch ;                                    | 8 |
| Cymru'n holol o ddysg weddol,                                      | 8 |
| Lin olynol, a lawn lenwoch,’ <i>Gro, Owen, i'r Cynmrodorion.</i> 8 | 8 |

Ond arferir ei ganu weithiau, heb gadwyno y sillaf gyntaf gyd â phrif-odlau y mesur.

Arall o hên ddull gywrain, fal y canai yr hên feîrdd; ac ynddo y mae godidawgrwydd gorchestwaith, a chadwyn ddi dör drwyddo, fel hyn,

|                                    |   |
|------------------------------------|---|
| ‘Dolur rhydrwm! dramawr benyd,     | 8 |
| Boenau dybryd, ebrwydd ddidol :    | 8 |
| Dwl Llŷn a llwm, llai mael Gwyndyd | 8 |
| Gan doi gweryd gwr rhagorol :      | 8 |
| Dirfawr adfyd, odfa ddyfryd        | 8 |
| D-lifrif oergryd, fyd aufadol ;    | 8 |
| Dyōn yw edryd, adrodd ennyd        | 8 |
| Ldwyn eu gwynfyd cyd, uu cedol !’  | 8 |

*Gro, Owen, Mar., I. Owen.*

24. Gorchest y beirdd, a fesurir o dair braich; y ddwy gyntaf ar y gyhydedd fér, yn cydodli a'u gilydd; a'r olaf ar y gyhydedd gaeth, a'r bedwaredd sillaf yn unodli, yn gydwbwys, gyd â diwedd y brechiau cyntaf, a'i diwedd yn arwain yr awdl drwy'r mesur; a rhaid i'r ail sillaf o bob braich unodli yn yr un modd, fel hyn,

|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| • Y rhwydd air hir,              | 4 |
| O'i chwydd, och wir,             | 4 |
| I'w swydd a'i sir y sydd saeth ; | 7 |

Ac yn atebol iddo, fel hyn,

|                                |   |
|--------------------------------|---|
| Ei dwyn o'i dydd,              | 4 |
| Fm swyn, i'm fydd              | 4 |
| Yn gŵyn a gwŷdd ugain gwaeth.’ | 7 |

*D. ab Edmund, Mar. merch Rhys Wyn o Fôn.*

### BEIAU GWAHARDDEDIG CERDD DAFOD.

1. Twyll awdl, sef pan fyddo *u* ac *y* yn cydodli yn niwedd brechiau, fel hyn,—‘ Hawdd i lêsg wneuthur esgus,  
Cŵyn diau brawf, rhag gwneud brys.’

2. Twyll gynghanedd, yr hyn sydd amryw ddull. Twyll gwreiddgoll fel hyn,—‘ Diau gelyn a goelais.’—‘ Dirfawr gŵyn, darfu y gwir.’

Twyll pengoll fel hyn,—‘ Galwaf ar Dduw Naf, Nef-deyrn.’—  
‘ Ni roddaf sén i'm Gwen-ferch.’—‘ Darfu y gwir, dirfawr gŵyn.’

Twyll sain sydd fel hyn,—‘ Trymwae am waith *gau* a geir.’—  
‘ Nid oes dŷn fel y ſân fau.’—‘ Mae fy nabl heb anadl byw.’

\*Mâth arall o dwyll sain,—‘ Mae baner Lloegr yn lliwgoch.’—  
—‘ Aed Belial a'i fagl, o syd.’—‘ Ar ben morwyn gwydn y'w'r gwalt! ’  
—‘ E ry'r awyr drwy wydr wawl.’—‘ Dyn segur budr enbydus.’  
Twyll llusg fel hyn,—‘ Daw dydd na thâl ymgûddiaw.’

3. Gormod odlau, sef pan fyddo un, nen ychwaneg, o'r gorhwysfâau  
yn unrhyw a'r brifodl, megys,—‘ Clywais gân, burlan berlaïs.’—  
—‘ Angylion, dynion a da.’—‘ Rhinwedd cân yw cynganedd.’

4. Proest i'r awdl, sef pan fyddo'r brif orphwysfa, mewn cynganedd  
groes neu draws, yn cyd broestio a'r brifodl, ac yr un gyfri o sillafau,  
megys,—‘ Mwy na mil am uno mawl.’—‘ Llu nifoedd oll yn ufudd.’

Proest llafarog fel hyn,—‘ Llon yw'r llu, a llawn yw'r lle.’

Haner proest fel hyn,—‘ Mwy o iawn it' am a wnaed.’

5. Dybryd sain, sef pan fyddo'r orphwysfa gynganeddol yn cydseiniol  
a'r brifodl, megys,—‘ Gwr cyfiawn, uniawn auian.’—‘ Arwyl oer hwyl,  
ar ei hól.’

6. Camosodiad, sef yw hyny pan fyddo'r cydseiniol wedi eu traws-  
osod bendraphen yn y fraich, megys, 1 2 3 4 1 3 2 4  
‘ Mawr iawn glais min awr o glwy.’

7. Gwest awdl, sef pan fyddo'r un gair ddwywaith yn mhrif-odlau yr  
un Englyn; ac a elwir felly am fod yr unrhyw awdl yn tramynychu i'r  
un Englyn, megys gwestai heb wahoddiad, fel hyn,

‘ Rhydd cant eu moliant am aur—a gemau,  
O gymysg liw rhuddaur;  
Hynod yw pawb am heu-aur;  
Gwyr yr oes a gâr yr aur.’

8. Trwm ac ysgafn, sef pan fyddo y seiniâu neu y prif-odlau yn an-  
nghydbwys a'u gilydd, megys,—‘ Er sén a phob gwén a gwé.’

‘ Trawsedd, a gwagedd, a gwyn—a ddygodd  
Yr eiddigus elyn;  
Ond trefiwyd, rhoddyd er hyn,  
Ymwared rhag y mawr-wyn.  
Amgylchu Môn mae'r tónau.’

9. Leddf a thalgron, megys, { ‘ Oer yw gwawr eira gorwyn  
Ar riw, ac ar lasliw lâwyn.’  
Arall mewn sain, fel hyn,—‘ Rhyw ffrawy whole yw tâwyll i ti.’

10. Crych a llyfn, sef pan fyddo mâth o gamosodiad yn y brifodl i  
ateb yr orphwysfa bènaf, megys,—‘ Och lâdd y dryw à chlédd dŵrn.’  
Arall yn y sain, fel hyn,—‘ Oer yw nghri tan fri tèn farn!’

11. Ymsathr odlau, sef pan fyddo rhan o sillaf yr orphwysfa yn sathru  
ar y brifodl, megys,—‘ Wi am gyff hœn ymgoffhaen.’

Arall mewn llusg, fel hyn,—‘ Nid gweddus Teyrnedd heb ddeddf.’

\*Rhoddyd y rhai'n i lawr er mwyn y rhai sydd arferol o estyn sain y  
geiriau canlynol—*Lloegr, Lloeger; magl, magal; gwydn, gwydyn. &c.*

12. Garllaesder, neu Garnorddiwes, sef pan fyddo dwy brif-odl liaws-sill yn ateb eu gilydd, megys,  
 ‘Dyn curiaawl yn dwyn cariad,  
 O wŷn ystig yn wastad.’

13. Garfyrdar, neu Tin âb, sef pan fyddo dwy brif-odl yn ūnsill yn ateb eu gilydd, mègys,  
 ‘Tŷn yw fy mriw tan fy mròn;  
 Bûn o hyd a boenai hon.’

14. Rhy debyg, sef pan fyddo yr orphwysfa a'r brif-odl mör debyg i'w gilydd, fel na bydd ond cydsain neu ddwy yn y diwedd, i'w rhwystro i gydateb yn ddwbl, megys,—‘*Cerais bob rhai o'm ceraint*’  
 Arall mewn cynganedd sain, fel hyn,—‘Eirian wyt *hawylan hoywlanc*.’  
 ‘Dichon fod aniryw yn debyg, ond heb fod yn waharddedig, megys,  
 ‘Nid yn nghwmni un unig,  
 Ond yn iughwmni tri y trig.’

15. Tôr mesur, sef pan fyddo mwyl neu lai o sillafau mewn braich neu benill; na'r hyn sydd ofynol with y rheolau sefydledig, megys,  
 ‘Gormod o bechod, a'i boen,—ei wae 9  
 A'i wewyr mawr echrys-boen, 7  
 A'uria enw gorhoen 6  
 Os gŵr ni chrêd—esgyrn a chroen.’ 8

Nid tôr mesur yw pan derfyno gair mewn llafariaid, a dyfod llafariad unigol arall yn un-sain âg ef yn yr un fraich, fel hyn,  
 ‘Gobeithiaf daw yr awen  
 Gwedi i phall i godi i phen.’

#### BEIAU MEWН SYNWYR CЕRDD DAFOД.

1. Unig a lluosog ynghyd, megys, ‘Gwae y gwyr mawr ni ddawr Dduw.’
2. Cymrychiol ac anghynrhychiol ynghyd, megys,  
 ‘Yno 'rwyf yu wr ufudd.’
3. Gwrryw a benyw ynghyd, megys,—‘Afon ddyfn, ar lyfn oer le.’
4. Drwg ystyr, sef canu molawd yn anmherthynasol, megys,  
 ‘Gŵr meddal, glan ei galon,  
 Yw'r meddwl, gwnair sulw a sôn.’
5. Clôd a gogan ynghyd, megys,—‘Llafn o eurych llyfn arw.’
6. Rhy ac eisiau, sef tramynychu yr un gyffelyb eiriau, heb ond ychydig synwyr, megys,—‘Gŵr cyflawn o flyddlawn ffydd.’
7. Cam amser, megys,—‘Y mae neithior yfory.’

D. S. Mae beiau synwyr cerdd dafod, megys rhai araihyddiaeth, yn dra lliosog; eithr dichon yr ychydig engraffau hyn, o'r rhai penaf o honiwt, weinyddu i rybuddio'r ymofynydd dêailus.

# HAWDDGAR GYMRO.

**M**I a feddyliais y byddai er rhyw faint o ddywenydd a boddlonwydd i ti, y Cymro anwyl, gael Diharebion dy wlâd yn brintiedig gyda'r Geirlyfr hwn. Y maeut yn haeddu yn dda gael eu cadw rhag myned ar gôl. *Gweddilion doethineb yr hén Gymry gynt* y geilw'r Pen-Cymreigyd a'r Prif-Awdur dysgedig hwnnw Dr. DAVIES hwynt. Ni ellais i anghwanegu nemmor at y Casgl cyflawn o Ddiharebion a osodes y *Doctor* allan gyda'i Eirlyfr. Y mae ymbell un o honynyt yn odywyll, a'r thai honnyt a nodais fel hyn. † Y casgl cyntaf o'r Diharebion hyn, megis yr hyspysa'r un Awdur parchedig, a elwid gynt *Madwaith hén Gyrys o Iâl*; o herwydd fal hyn, medd efe, y mae wedi ei ysgrifennu o'u blaen hwynt yn yr hén lyfrau, *Mad-waith hén Gyrys o Iâl*, *yr hen a elwid Bâch Buddugre, a Gwyddfarch gyfarwydd*. *A'r hén wyrda gynt a ddywawd y diharebion hyn, fel y baent gadwedig gwedi hwynt, i rodai addysg i'r neb a syniai arnynt*. Pa amser yr oedd yr hén GYRYS ymma, nis gwyddai Dr. DAVIES ei hunan. Gwna di ddeunydd da o'r Diharebion hyn, gan gymmeryd addysg a gwybodaeth oddiwrthynt. A bydd wŷch.

T. R.

## To the Reader.

**T**HE BRITISH PROVERBS are here re-printed for thy Sake, and some few added, which are not to be found in the Collections published before. The first Collection of them was made by old GYRYS of Yale in Denbighshire; but at what Time this GYRYS lived, Dr. Davies himself could not inform us. Some hundreds of PROVERBS were added by the Doctor in that compleat Collection, which he published with his Dictionary. A few of these PROVERBS are somewhat obscure; those I have distinguished by prefixing an [†] Obelisk to them. These OLD SAYINGS, transmitted to us from our Ancestors, do well deserve to be preserved. The great Dr. DAVIES calls them *Antiquæ Britonum sapientiæ reliquias*, *The Remains of the ancient Wisdom of the Britains*. And since the life of Man is so very short, that his Experience can be but small, and his Observations few, we ought not to neglect any Instructions we may receive from former ages.

T. R.

## DIHAREBION CYMRAEG.

### A

**A** BL i bawb a'i boddlono.

Abl i bawb a'i gweinyddo.

Abl i bawb ei gydradd.

A achwyno heb achos, gwneler  
achos iddo.

A arbedodd ei lwyn, a gollodd ei  
fwyn.

A arbetto ei Fâch, arbettaid ei  
gynnog.

Achos bychan y daw blinder.

Achos heb achos o hono.

Achos i'r bysen fod ar y barth.

Achub maes mawr â drygfarch.

Achwyn rhag achwyn rhagddo.

Adail dedwydd yn ddiddos.

Adar o'r unlliw a dynnant i'r unlle.

Adfyd pêb hir dristwch.

Adneu cyhyryn gan gât.

Adneu gan berchen.

A Duw nid da ymdaraw.

Adwen môb a'i llawch, ac nid ed-  
wyn môb a'i cár.

Adwyog cae anhwysmon.

A ddyfo cancar ef a ddyfydd can-  
nos.

A ddyfo i dorth a'i dyhaith; ef a  
ddyfydd a waël ei waith.

Addas i bawb ei gydradd.

Addaw fâb addaw faen.

Addaw mawr a rhôdd fechan.

Addaw têg a wna yufyd yn llawen.

Addewid. *Vid.* Eddewid.

Addfed angen i bêu.

Addug yr hŷdd i'r llynn.

Addug yr hŷdd i'r maes mawr.

Adduned herwr hirnos.

A ddŵg angen nid adfer.

A ddŵg da drŵg gyngor?

A ddycyo y gôd ymgorihed o honi.

A ddycyo'r wy a ddŵg a fo mwy.

A ddysger i fâb dduwsul, ef a'i  
gwybydd dduw llîm.

Aed lew i gynnwrf câd, Duw a'i  
differ.

A êl i llys heb neges, doed a'i ne-  
ges gantaw.

A êl i'r gwarae, adawed ei groen  
gartref.

Aelwyd a gymhell

Aerwy cyn buwch.

A esgynno yn hwyr ebrwydd y  
disgyn.

Afiaich pôb trwmgalon.

Afieithus pêb mammaeth.

Aflasaf pob tawedog.

Aflan dwylo diowgswrth.

Aflan geniù anudonol.

Afllednais pôb gwylt.

A fo aml ei fara, dan ganu aed i  
laetha.

# DIHAREBION CYMRAEG.

- A fo aml ei feibion bid wâg ei  
goiuddion.
- A fo aml ei fêl rhoed yn eì uwd.
- A fo caled ynghyngaws, dadleued  
ar bob achaws.
- A fo da gan DUW ys dir.
- A fo digwilydd a fydd digolled.
- A fo diried ar fôr, diried fydd ar  
dir.
- A fo ei frŷd ar ddebed, ni wna dda  
cyn ei tyned.
- A fo goreu i ryfel goreu fydd i  
heddwch.
- A fo hên arched weddi.
- A fo hyborth hywir fydd.
- A fo marw ni ymogelir.
- A fo nesaf i'r eglwys, fydd pellaf  
oddiwrth baradwys.
- A fo trechaf treisied,
- A fo pen bid pont.
- Afrad yw gwrtlod.
- Afrad pob afraid,
- Afrwydd pob dyrys.
- A fu bencwd aeth yn dinewd.
- A fynto barch bid gadarn.
- A fynto DUW derfid. *al.* dydder-  
pid.
- A fynto glôd bid farw.
- A fynto gymnell bid glaf.
- A fynto iechyd bid lawen.
- A gafas y caru, a gafas y llafn.
- A gaffo ddymod y bore, hyd ucher  
ydd â ag ef.
- A Gair DUW yu uchaf.
- A garo ei fam, cared ei elldrewyn.  
*Vid.* Ni charo.
- A garo ei gilydd, nid adnebydd ei  
gabl.
- A garo yr iau cared ei waryau.
- A garo ei gŵr cared ei chwegr.
- A gasgler ar farch maleu, dan ei  
dorr ydd â.
- A gatwer a gair wrth raid.
- A grea'r frân fawr a grea'r frân  
fechan.
- A gŵyn cŵyn bychan, cŵyn mawr  
a ddarogan.
- A gŵyn rhwy ni ry gwynfan.
- A gyfodes a golles ei le.
- A gymmero ddŷsg cadwed.
- Alwisen tam o garw. *Vid.* El.
- A lygrwys DUW a lygrwys dŷn.
- Alian o olwg allan o feddwl.
- Allwedd calon cwrwf da.
- Amaerwy adnabod amniyedd.
- Amaerwy direidi drwg anian.
- Amcan a fydd gan bawb.
- A'm caro i cared fy nghi.
- Amgeledd y ci am y cŵd halen.
- Am gwypm hên chwerddid gwêr  
gwás. *Al.* Am gwypm hên y  
chwardd ieuang.
- Amla'r cwrwf tra hitler.
- Amla'r mîl tra hitler.
- Aml bai lle ni charer.
- Amlwg cás a chariad.
- Amlwg gwaed ar farch gwelw.
- Amlwg gwaed o ben crâch.
- Ammiharod pôb anallu.
- Amheuthun pob dieithrfwyd.
- Aminau pôb anwybod.
- Ammod a dyir defod.
- Ammraint pôb torr defod.
- Amser i fwyd amser i olychwyd.
- Amser sydd i bôb peth.
- Anafus pôb drwgfoesawg.
- Anaf yngiu, angau yngwythi.
- Anegiur cennad yw ceudawd.
- Anerian pôb diriaid.
- Angall mal dall a dwyllir.
- Angel pen ffordd a diawl pentan.
- Angen a bair i henwrach duthio.
- Angen a bry'n ac a werth.
- Angen a dyrr ddeddf.
- Angen a ddŷsg i hên redeg.
- Anghariadus pôb diriaid.
- Aughenawg pôb tlawd.
- Anghwbl pôb eisian.
- Anghyminnen pôb fiôl.
- Aughynnes pôb oer.
- Anghieu angen dyhewyn dir.
- Aughei a ddyfrys.
- Aughei garw drûd a'i heirch.
- Anghwanecgid mœl mowjair.
- Anghysfarwydd a dyrr ei din yn  
cachu.
- Anhael pôb cybydd.
- Anhappus pob trwch.

## DIHAREBION CYMRAEG.

- Annhebyg biau ffynnio.  
 Auhyderus pôb ofnog.  
 Anhydyn pôb afrywieg.  
 A noddio Duw ry noddir.  
 Annoeth liithrig ei dafod.  
 Annog dy gi ac na ddôs gantho.  
 Annos ei i gell egored.  
 +Anrhaith gyfludwyd taeog yn nhŷ  
     ei gilydd.  
 Anwadal pôb ehud.  
 +Anwar fu felyn ei faint.  
 Anwydog chwannoig i dân.  
 Anwyl gan bawb a gâr.  
 A oddef ry dau.  
 A ogano a ogenir.  
 Arafn dân a wna brâg melus.  
 Araith doeth a drûd ni ddygym-  
     mydd.  
 A rannawdd néf a gafas.  
 A ranno i liaws rhanned yn hynaws.  
 Ardd cýd bých, ardd cyn ni bých.  
 Ar ddiweddf y mae barnu.  
 Arf doeth yw pwyll.  
 Arfog a gaffo rybudd.  
 Argiwydd a gymhell.  
 Arglwydd biau a wiþhotter.  
 Arglwydd gwann gwae ei wâs.  
 Arglwydd pawb ar ei eiddo.  
 Arian a bryn ac a werth.  
 Ar ni allo traïs twylled.  
 Ar ni ochelo'r mŵg, ni ochel ei  
     ddrŵg.  
 A'r gwelleif y llâs y weirglodd.  
 Ar nid yw pwyll pýd yw.  
 Ar ni oddefo gwâs, bid wâs iddo  
     ei hun.  
 Ar ni phortho ei gât ported ei  
     lygod.  
 Ar ni roddo a garo ni chaiff a  
     ddyinuno.  
 Ar ni waun yn ddraen ni wân yn  
     gippyll.  
 Arofyn drwg fugail.  
 Arwaesaf a ddiffydd diffaith.  
 Arwaesaf i leidr ei fanag.  
 Arwydd drŵg mŵg yn nissaith.  
 Arwydd nad cig bŵch.  
 Aseth ni phlycco niid da.  
 Asgiodyn gwern ymhen y gât.
- Asgre lân diogel ei pherchen.  
 Asgwru yr hêu yn yr angen.  
 Astius pôb anef.  
 Atfai gell i gi, mynch ydd â iddi.  
 Atgas direid-ddyn.  
 Atteb araf gan ddysgedig.  
 Athro pawb yn ei dy.  
 Athrodwaith o genfigen.  
 Aur gan bawb a chwennych.  
 A wahanodd cnawd gwahanodd  
     ddolur.  
 Awchus arf a eillio.  
 Awdur cerdd a'i gwnêl.  
 Awgrim pawb nis gwybydd.  
 A wnêl drwg arhoed y llall.  
 A wnêl drwg ymogeled.  
 A wnêl dýn Duw a'i barn. *Al.*  
 A wnêl Duw dýn a'i barn.  
 A wnelef yn rhin nant, ef a'i gwy-  
     bydd caut.  
 A wnêl mât, mât a ddyly.  
 A wnel mowrddrwg a rydd mowr-  
     llw.  
 A wnêl twyll ef a dwyllir.  
 Awyr ddrwg caffaeliad ffalswr.  
 Awydd a dyrr ei wddf.  
 A yfo lawer bid feddw.  
 A wreiddio mewn drygioni.  
 Anhawdd fydd ei gynghori.  
 A yssô tam y môb yssed ei fest  
     gantaw,

## B

- B**AI ar wrâch dorri ei chlûn.  
 Bai ar farch dorri ei droed.  
 Balchder heb droed.  
 Balchder o bell.  
 Bara ac ymenyn yw un tammœid.  
 Barf niid ardd ni chwardd ychlas.  
 Bâs pan wahenner hymny.  
 Basaf dwfr pan yd lesfair.  
 Be â bawd y gweid gwe.  
 Be caffai pawb a fynnai, ni byddai  
     hiraethawg neb rhai.  
 Bellach bellach fal chwedl y barcut.  
 Bendith i'r hŵch biau'r bloneg.  
 Berwid calon llew.  
 Bid anian dedwydd.

# DIHAREBION CYMRAEG.

|                                                    |                                                         |
|----------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|
| Bid anniweir diferiawg.                            | Bwrw dwfr am ben gŵr marw.                              |
| Bid anwadal ehud.                                  | Bwrw gwyddif ar ôl yr hwyaid.                           |
| Bid dirieid dryganianus.                           | Bwrw heli yn y môr.                                     |
| Bid ehud drûd er chwerthin.                        | Bwystlawn geneu callawr.                                |
| Bid euain alltud.                                  | Bwyta'r mîl o'r cŵch.                                   |
| Bid gyfa ran rybuchir.                             | Bychan fydd man y cynfyl.                               |
| Bid háha byddar.                                   | † Bychodedd minailed. <i>Aliás mynialedd.</i>           |
| Bid hyfagl gwyr ar oim.                            | Byddar a gaiff gyffelyb.                                |
| Bid lâs lluarth.                                   | Byrr ddryganian a wna hir ofal.                         |
| Bid lawen iâch.                                    | Byrrddydd ni dderfydd cyngor.                           |
| Bid lawen meddw.                                   | Byrr-hoedlog digasog Saint.                             |
| Bid lyfn dy baderau, bid rydlyd dy arfan.          |                                                         |
| Bid nîch cwyn clâf.                                | <b>C</b>                                                |
| Bid reniad ymgylleth.                              | <b>C</b> ADARNACH yw'r edau yn gyfroedd nag yn unigorn. |
| Bid trist pob galarus.                             | Cafas da ni chafas ddrwg.                               |
| Bid wagelawg lleidr.                               | Caffad malu, caffad ei werth.                           |
| Bid wâr antur glew wrth awr.                       | Cais farchog da dan draed ei farch.                     |
| Bid wastad wraig o'i mynuch warth                  | Cais yn y mwlgwg.                                       |
| Ibid wyw gŵr heb fagwriaeth.                       | Calan gauaf garw hin, anuhebyg i gynnesfin.             |
| Bid wyw march a gnith gwelt mai.                   | Caledach glew na maen.                                  |
| <i>Aliás</i> Bid fyw.                              | Calon ni gynnydd cysgid. <i>Aliás cystudd.</i>          |
| Blaengar ymadrodd ffôl.                            | Calon y Sais wrth Gymro.                                |
| Blingo'r gât hyd ei llosgwrn.                      | Can rewydd ni bydd pêll rhin.                           |
| Blodau cyn mai malpai na bai.                      | Can cár fydd i ddŷn a chan esgar.                       |
| <i>Aliás</i> Goreu na baj.                         | Can mil gwraig.                                         |
| Bo amlaf fo'r bleiddiau, gwaethaf fydd i'r defaid. | Can wst gan henaint.                                    |
| Bob eilwers y rhêd y cŵn.                          | Canhymdaith ci ei losgwrn.                              |
| Bod yn hir yn glâf a marw eusys.                   | Cant mwyn mât y ty.                                     |
| Bo hynaf fo'r dŷn gwaethaf fydd ei bwyll.          | Canu heb gywydd.                                        |
| Bo hynaf fo'r rhŷg tebyccaf fydd i'w dâd.          | Casbeth gwyr Rhufain.                                   |
| Boloch ofnawg fydd daw.                            | Casben Owen Cyfeihog.                                   |
| Bonedd a dywys, dillad a gynnwys.                  | Câr cywir yn yr ing y gwellir.                          |
| Bore brwynawg bradawg iair.                        | Carth gwaclod y bellen.                                 |
| Bore côch a mawredd gwraig.                        | Câs dŷn yma, câs Duw fry,                               |
| Bo tynna' fo'r llinyn cyutaf y tyrr.               | Câs fydd a oreilitio.                                   |
| Braith ei gôd a gynnnull.                          | Câs maharen mwyeri.                                     |
| Brawd yw mygu i dagu.                              | Câs yw'r gwirionedd yn lle ni charer.                   |
| Breuddwyd gwraich wrth ei he-wyllys.               | Caseg glôff clôff ei hebol.                             |
| Brodyr pôb cerddorion.                             | Cau tim wedi brammu.                                    |
| Buan barn pôb ehud. <i>Vid. Moch.</i>              | Ceiumygir pob newydd.                                   |
| Bfidd cyn tymp.                                    | Ceisied asgre ei fam a gollo,                           |
| Bwrw â'th unllaw cais â'th ddwy-law.               | Celfydd cêled ei arfaeth.                               |
| Bwrw cât i gythraul.                               | Cêll Aiglwydd y welegi.                                 |

DIHAREBION CYMRAEG.

- |                                                       |                                                                 |
|-------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| Cenau milgi a morwyn ni chaiff eu<br>mîwyn a'u magco. | Cyd gwichio'r fenn hi a ddŵg ei<br>llwyth.                      |
| Cenau yn ei wâl, a gât lem.                           | Cyddles i bawb galw'r ychen.                                    |
| Ceisio diried yn ei dyddyn.                           | Cyd ysso eиг march bid ar gig ebol.                             |
| Ceisied pawb ddŵr i'w long.                           | Cyfa ran rybuchir.                                              |
| Cennyl gwraig mowrdda.                                | Cyfaill blaidd bugail diog.                                     |
| Cennad fud drûd a'i crettwy.                          | Cyfareddion gwîach waethwaeth.                                  |
| Cennad hwyr drûg ei neges.                            | Cyfarwyddaf llaw lle y dotto.                                   |
| Cerddwys a rwymmwys.                                  | Cyfnewid â hael.                                                |
| Cerid clwaer diried cyn ni charer.                    | Cyfoed fydd da a dedwydd.                                       |
| Ceugant yw angau.                                     | Cyfoethog i werthu, tlawd i brynu.                              |
| Ci chwyrnog halawg ei bais.                           | Cyfrin pen a chalon.                                            |
| Ci a helio pob llwdn ni bydd da ar<br>yr un.          | Cyffes pob rhwydd.                                              |
| Clwm anghenog ar y geiniog.                           | Cymwythach corrach a simmach.                                   |
| Clwm eiddil moch ellwng.                              | Cymmyrid haearn hoedl dŷn.                                      |
| Clŷd pôb clawdd i ddigarad.                           | Cyn ddyiheued ac yssu o'r llygod<br>y cwlir.                    |
| Clywid corn cyn ni weler.                             | Cyn ebrwydded yn y farchnad,<br>croen yr oen a chroen y ddafad. |
| +Coel can hadain.                                     | Cyngheusedd wedi brawd.                                         |
| Coes yn lle morddwyd.                                 | Cyngor hên nith attwg. <i>Aliâs</i><br>Cyssul.                  |
| Côf gan bawb a gâr.                                   | Cyngor i'n gwâs yn hên.                                         |
| Coffa dy din pan entrewych.                           | Cynhadl taeog yn ei dy                                          |
| Coffi gwâs diog.                                      | Cynnelw cinyr gan gadechyn.                                     |
| Cogor iâr yu ydlan.                                   | Cynt y cwrdd dau ddŷn na dau<br>fynydd. <i>Aliâs</i> dwy lann.  |
| +Coiles dy lad cystal i'r fuwch.                      | Cynt y llýsg yr odyn na'r ysgrubor.                             |
| +Colles ei glydwyr a gyrchawdd ty                     | Cyrch Cabryttai.                                                |
| Côssp ar ben iâr. [yadwr.]                            | Cyrchid fryn a ddisgwilio.                                      |
| Cospi yr arth yngwydd y lllew.                        | Cyrch y ci ar y freuan.                                         |
| Cospi'r maer ym mhen y drêf.                          | Cyssul hên nith addwg.                                          |
| Cos tin taeog, efe a gâch yn dy<br>ddwru.             | Cystal ar draed a marchogaeth ffon.                             |
| Crâff ci, caledach asgwrn.                            | Cystal y march a'i adfarchwerth.                                |
| Craffach na'r efail.                                  | Cywala gweddw gwraig unben.                                     |
| Crechwen yngenaû yufyd.                               | Cywrys am fwyd, carant am osid.                                 |
| Crefydd iâr wrth ei gylfin.                           |                                                                 |
| Cryd ar hên angeu ys dir.                             |                                                                 |
| Crynu fal y fo'i wiafen.                              |                                                                 |
| Cuall cleddyf byrr o wain.                            |                                                                 |
| Cu annair wedi praid.                                 |                                                                 |
| Cwymp ar galedlawr.                                   |                                                                 |
| Cwymp y gŵr yn y rhŷch.                               |                                                                 |
| Cwyu bychod ceiliog yn aerwy.                         |                                                                 |
| Cyd boed da nid gwirdd.                               |                                                                 |
| Cyd boed doeth diried ys drûd.                        |                                                                 |
| Cyd boed hirddydd dybydd ucher.                       |                                                                 |
| Cyd celer nawnos, ni chelir now-<br>mis.              |                                                                 |
| Cydfwyta a môb Arglwydd, ac na<br>chyd chwarae,       |                                                                 |
|                                                       | Ch                                                              |
|                                                       | Chwannog trŵch i drin.                                          |
|                                                       | Chwannog môb iw hynt, chwan-<br>nog adref a fo cynt.            |
|                                                       | Chwarae ac na friw, cellwair ac na<br>chywilyddia.              |
|                                                       | Chwarae brôch ynglod.                                           |
|                                                       | Chwarae hen-gi a chenau. <i>Alias</i><br>a cholwyn.             |
|                                                       | Chwareuid môb noeth, ni chwery<br>môb newynog.                  |

DIHAREBION CYMRAEG.

|                                                        |                                                    |
|--------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|
| Chwareae hŵch a phorchell.                             | Da yw Duw, a bir yw byth.                          |
| Chwareuys yn awr, nid chwareuys mlwyddyn.              | Da yw'r maen gyda'r Efengyl.                       |
| Chwarddiad dŵr dan iâ!                                 | Dechreu blaen carrai o foly.                       |
| Chiwefror chwŷth neidr o'i nŷth.                       | Dedwydd a gâr dalodwch. <i>Q. wh.</i><br>dadolwch. |
| Chwêg mêdd pan yfer, chwerw pan daler.                 | Dedwydd a gaiff draen yn ei uwd.                   |
| Chwegach bwyd cybydd.                                  | Dedwydd Dofydd a'i rhudd rhâd.                     |
| Chwerddid brŷd with a garer.                           | Dedwydd i'r a'i gwŷl a'i câr.                      |
| Chwerthin a wna ynsyd yn boddi.                        | Defnyddfawr pob anghywraint.                       |
| +Chweyrys gwawd o annianawd.                           | Deuparth clôd ymmhenglog.                          |
| Chwil gan nôs.                                         | Deuid y ci wrth yr hŵch.                           |
| D                                                      |                                                    |
| <b>D</b> a angau ar eiddiawg, or tae-<br>awg.          | Deuparth gwaith ei ddechreu.                       |
| Da daint rhag tafawd.                                  | Deuparth ffordd ei gwybod.                         |
| Da mât y gôf.                                          | Deuparth ffýdd ynghalon.                           |
| Dadleu gwedi barn.                                     | Deuparth parch yw arfer.                           |
| Dadleu mawr mynuch, ac egni ar<br>lygoden.             | Deuparth prŷd ymdrwsio.                            |
| Da gwaith Duw, roi cyrn byrrion<br>i'r fuwch a hwyllo. | Deuparth bonedd yw dŷsg.                           |
| Da gweddai'r bêr i'r golwyth.                          | Deuparth dŷsg yw hyder.                            |
| Da gwr mal pawb.                                       | Deuparth taith ymbarottai.                         |
| Da hil ceirch gan ddrug gynnog.                        | Deuparth tref ei harferau.                         |
| Daint y ci wrth yr hŵch.                               | Deuparth cerdd ei gwrando.                         |
| Dala dy dŷ am a fo, a diofryd a<br>ddarffo.            | Deuparth rhôdd yw ewylls.                          |
| Dalis da yn hŷd fu.                                    | Dewis pob eiddig.                                  |
| Dall fvddar pob trŵch.                                 | Dewis aî'r iau aî'r fwyall.                        |
| Dall pob anghyfarwydd.                                 | Dewis o'r ddwy fachddu hŵch.                       |
| Damwain pob hely. <i>Alias</i> helynt.                 | Dewis pawb o'i giniaw.                             |
| +Dangof llwyr i gyfarwyre; or<br>Dangos.               | Diangc ar Glwyd a boddi ar Gon-                    |
| Dangos diriaid i gŵn.                                  | Diau gynnadl taeog o'i dý. [wy.                    |
| Dangos dy fŷs i falawg, ynteu a'i<br>heirch yn gwbl.   | Dibech fywyd gwyn ei fyd:                          |
| Dangos llwybr i gyfarwydd.                             | Diengid gwan erlid ihy gadarn.                     |
| Dangos nêf i bechadur.                                 | <i>Alias</i> elid.                                 |
| Dangos y llo, ac na ddangos y<br>llaeth.               | Diffaith llyffant dan ia.                          |
| Daa brŷd newynog a wna'r tryd-<br>ydd yn lŵth.         | Differwy Duw ddiawg.                               |
| Dau waith a fydd gan gywraint.                         | Dig pawb rhag a'i câr os cawdd.                    |
| Da yw a saif ac ni waner.                              | Digawn da diwyd gennad.                            |
| Da yw côn mât.                                         | Digon Crist trist yn liawen.                       |
|                                                        | Digon Duw da i unig.                               |
